| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Y Cyngor Llawn |
| Dyddiad | 16 Hydref 2008 |
| Teitl | Trefniadau Craffu'r Adolygiad ar y Cyd |
| Pwrpas | Ceisio cymeradwyaeth i'r Trefniadau |
| Argymhelliad | Cymeradwyo'r Trefniadau |
| Awdur | Gareth James, Rheolwr Craffu Corfforaethol |
| Arweinydd Portffolio | Y Cynghorydd Dyfed Edwards |

CYFLWYNIAD

1 Bu'r Uned Craffu yn ystyried opsiynau ar gyfer craffu'r Rhaglen Wella ar gyfer yr Adolygiad ar y Cyd, gan ystyried y dull gorau o graffu ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

2 Fe drafodwyd opsiynau gydag aelodau'r Bwrdd Rheoli Rhaglen gan ystyried pa opsiwn fyddai'n cynnig y drefn fwyaf effeithiol o safbwynt herio cyflawniad ar y Rhaglen Wella, gyda chyfle i herio'r Arweinwyr Portffolio a'r Swyddogion atebol gan y craffwyr.

3 Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r ffordd fwyaf clir i adrodd ar gyflawniad a diffyg cyflawniad o safbwynt craffu gan gydlynu gyda threfn monitro cynnydd y Rhaglen Wella.

4 Fe ymgynghorwyd â'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.

Y DREFN CRAFFU (**gweler atodiadau A a B**)

5 Mae'r opsiwn a ffafriwyd yn golygu creu trefn hybrid newydd ar gyfer craffu Rhaglen Wella'r Adolygiad ar y Cyd, sy'n sicrhau craffu pwrpasol ar draws y Cyngor a chraffu penodol gan y tri phwyllgor craffu perthnasol sef Gofal, Plant a Phobl Ifanc ac Adnoddau a Chorfforaethol.

6 Sefydlir Gweithgor Craffu o 9 aelod (gyda 3 aelod o'r 3 pwyllgor craffu a nodir uchod). Bydd y gweithgor yn galw aelodau'r Bwrdd Rhaglen i gyfarfod chwarterol i graffu cynnydd adeiladol ac i fonitro eu perfformiad.

7 Bydd y 3 pwyllgor craffu yn craffu adroddiad cryno y Gweithgor yn chwarterol, gan roi sylw manwl i agweddau penodol, perthnasol.

8 Fe gyflwynwyd y Drefn Craffu arfaethedig i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 2 Medi 2008, ac fe gynhwysir y sylwadau a wnaed yn y drefn amgaeedig yn atodiadau A a B.

ARGYMHELLIAD

9 Gwahoddir y Cyngor i gymeradwyo *Trefn Craffu Rhaglen Wella'r Adolygiad ar y Cyd* sydd gerbron.